

FS19

# Taflen Ffeithiau

Tai Rhent Canolradd  
Fforddiadwy

Coed Pella,  
Conway Road,  
Bae Colwyn.  
LL29 7AZ  
0300 1240050



## Beth yw Cynllun Rhentu Canolradd?

- Mae dewis rhent canolradd ar gyfer aelwydydd sydd ag incwm rhwng £16,000 a £45,000 ac na allant fforddio eiddo ar y farchnad agored.
- Mae rhent yn seiliedig ar Lwfans Tai Lleol neu 80% o rent y farchnad agored
- Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf cymhwyso (a nodir isod) a chofrestru gyda **Thai Teg**
- Mae rhent mis a blaendal mis yn ofynnol fel arfer.
- Efallai y gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio am eiddo rhent canolradd gwblhau trefn geirada gan y landlord (yn dibynnu ar y landlord). Y rheswm dros hyn yw i sicrhau eu bod yn ddigon sefydlog yn ariannol i gynnal tenantiaeth ar y lefel rhent a nodir a'u bod yn denantiaid addas.
- Ni ddylai ymgeiswyr fod â mwy na £16,000 o gynilion.

## Beth yw Tai Teg?

Cofrestr yw Tai Teg a lansiwyd mewn partneriaeth rhwng 14 cymdeithas dai rhanbarthol, awdurdodau lleol, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol i symleiddio sut y mae pobl yn gwneud cais am dai fforddiadwy. Grŵp Cynefin sydd yn gweinyddu'r gofrestr. Mae Tai Teg yn asesu holl ymgeiswyr ar gyfer eiddo cost isel neu fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

Mae Tai Teg yn rheoli ceisiadau fel y gallwch gael eich cymeradwyo a'ch lleoli ar y gofrestr os ydych yn bodloni meini prawf ar gyfer yr opsiwn tai fforddiadwy hwn. Maent yn cynnig gwahanol opsiynau ynghylch uned fforddiadwy sydd ar gael, naill ai yn eiddo rhent (rhent canolradd) neu brynu eiddo sydd yn rhatach nag eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored. Ewch ar eu gwefan [www.taiteg.org.uk](http://www.taiteg.org.uk) i gael manylion am eu cynlluniau eraill sydd yn cynnwys Rhentu i'w Brynu, Prynu Cartref, Rhan Ecwiti a Rhan Berchnogaeth.

## Ydw i'n gymwys i gael fy ystyried am eiddo rhent canolradd?

**Oedran** – rhaid i chi fod dros 18 oed.

**Ariannol** – incwm aelwyd gros blynyddol rhwng £16,000 i £45,000

**Incwm** – Rhaid i'r incwm fod rhwng £16,000 - £45,000. Nid oes rhaid i aelwydydd fod mewn cyflogaeth a bydd yr incwm canlynol yn cael ei ystyried:

- Incwm o gyflogaeth / Hunangyflogedig.
- Incwm o gyflogaeth / Hunangyflogedig.
- Lwfans Gofalwr – yn wythnosol ymlaen llaw neu bob pedair wythnos
- Budd-dal Plant - fel arfer bob pedair wythnos neu'n wythnosol os yw'r hawlydd yn rhiant sengl neu os yw'n derbyn budd-daliadau penodol eraill
- Lwfans Byw i'r Anabl – fel arfer bob pedair wythnos
- Taliad Annibyniaeth Bersonol – fel arfer bob pedair wythnos
- Credydau Treth, fel Credydau Treth Gwaith – bob pedair wythnos neu bob wythnos
- Credyd Cynhwysol – (gan gynnwys yr elfen tai) - bob mis
- Cynhaliaeth Plant – ni fyddai angen cadarnhad cyfreithiol. Byddwn yn derbyn y taliad hwn os yw'n aml ac yn cael ei nodi yn y cyfriflenni banc.
- Pensiwn y Wladwriaeth a Phreifat



**Fforddiadwy** – ni allwch fodloni'r gofynion fforddiadwyedd ar gyfer eiddo ar y farchnad agored.

**Llety** – rhaid i chi fod yn prynu am y tro cyntaf neu os yw eich cartref presennol yn anaddas ac nad yw'n bodloni anghenion eich teulu e.e. angen oherwydd bod perthynas wedi chwalu anghenion penodol fforddiadwyedd oherwydd maint y teulu

**Cysylltiad Lleol** – bydd rhaid i chi gael o leiaf 12 mis o gysylltiad lleol yn yr ardal rydych yn dewis byw ynddo e.e. byw, gweithio neu gyda theulu, cysylltiad teuluol agos.

**Esempiad** – Personél Gwasanaeth – rydym yn ystyried ceisiadau hyd yn oed os yw'r incwm Personél Gwasanaeth yn 'sero' – ond mae angen cysylltiad lleol. Bydd Personél gwasanaeth angen bodloni'r meini prawf llawn ar adeg y maent yn gwneud cais am eiddo – nid oes arnynt angen bodloni'r meini prawf llawn i gofrestru gyda Thai Teg.

## Sut mae Tai Teg yn llunio'r rhestr aros?

Ar ôl i chi gofrestru a phan fyddwch yn datgan diddordeb am eiddo, bydd rhestr fer yn cael ei chreu yn ôl trefn dyddiad cymeradwyaeth, bydd cysylltiad lleol a maint teulu yn cael eu hystyried.

## Ydw i'n cael blaenoriaeth os ydw i'n Denant Cymdeithasol?

Mae'n rhaid i chi fodloni'r meini prawf cymhwyso uchod, ond efallai bydd tenant cymdeithasol yn cael blaenoriaeth er mwyn rhyddhau eiddo tai cymdeithasol. Bydd hyn ar yr hysbyseb.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Gallwch gofrestru ar-lein yn: [www.taiteg.org.uk](http://www.taiteg.org.uk)

Neu cysylltwch â Thai Teg yn uniongyrchol:

Tai Teg  
PO Box 167  
Caernarfon  
LL55 9BP

Rhif Ffôn: 03456 015 605

**\*\* Gall Tai Teg ystyried ceisiadau gydag incwm aelwyd gros blynyddol rhwng £45,000 a £60,000 ar gyfer y cynllun Rhentu i Brynu a Chyd-berchnogaeth yn unig \*\***





Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar [ww.dewis.wales](http://ww.dewis.wales);

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyingor. Mae'n bwynt mynediad seagl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

